Cloch Dewi

Cyf 6: Rhif 2

Rhagfyr 2019

Nadolig Llawen iawn i chi 'gyd!

Pypedwyr perfformiad Nadolig Sally Humble-Jackson yn eu cyflwyniad yn Eglwys Dewi Sant

Eglwys Dewi Sant Caerdydd

eglwysdewisant.org.uk

EglwysDewiSant

@eglwysdewisant

Yn y rhifyn hwn

	Tud		Tud
Newyddion o Gynhadledd y Ddeoniaeth	2	Llythyr y Ficer	5
		Organfest 2019	6
Pigion o'r Cyngor Plwyf Eglwysig	3	Pobl y Plwyf	7
		Dysg i'n weddïo	8
Cyfarchion o Tseina	4	Dyddiadur yr Eglwys	

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd

Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

Offeiriad: Y Parchedig Rhian Linecar

Ffôn: 01446 760007

E-bost: rlinecar@gmail.com

Cyffro ar droed – Newyddion o Gynhadledd y Ddeoniaeth

Y Parchedig Ryan Forey – Darpar Ficer 'Citizens Church' Caerdydd – Yr Eglwys Adnoddau arfaethedig sydd ar fin dod i Gaerdydd

Daeth cynrychiolwyr o eglwysi Deoniaeth Caerdydd a Llandaf ynghyd yn Eglwys Sant Marc Gabalfa nos Iau 21 Tachwedd i ddysgu am yr Eglwys Adnoddau arfaethedig sydd ar fin dod i Eglwys St Andreas a St Teilo, Woodville Road, nid nepell o Eglwys Dewi Sant.

Cafwyd anerchiad gan y Parchedig Ryan Forey, darpar Ficer yr Eglwys Adnoddau. Bydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Mai 2020. Mae Ryan Forey ar hyn o bryd yn rhan o dîm sy'n arwain yr "Habour Church" yn Portsmouth, eglwys a sefydlwyd yn 2016 ac sy'n denu cynulleidfaoedd o dros 800 i'w gwasanaethau ar y Sul.

Erbyn hyn, mae Eglwysi Adnoddau yn weddol gyffredin ym mhrif ddinasoedd Lloegr, yn enwedig y rheiny â phrifysgolion ynddynt. Mae'n fudiad sydd yn perthyn i adain Efengylaidd Eglwys Loegr ac fe'i dechreuwyd yng nghanol yr 80au gan eglwys y Drindod Sanctaidd Brompton, Llundain. Diben y mudiad hwn yw adnewyddu a bywiocáu yr Eglwys Anglicanaidd trwy ddenu pobl ifanc, o dan 30mlwydd oed, i'r ffydd Gristionogol. Hyd yn hyn, mae'r eglwysi adnoddau, ar y cyfan, wedi bod yn llwyddiannus yn eu cenhadaeth ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc proffesiynol. Mae eu gwasanaethau yn dueddol o fod yn anffurfiol, egnïol, bywiog a chyfoes iawn eu naws. Eu prif ddulliau o ddenu pobl i'r eglwys yw cynnal digwyddiadau cymdeithasol amrywiol, marchnata effeithiol a brandio deniadol. I'r rhai sydd am ddysgu mwy am y ffydd Gristnogol, mae'r eglwysi adnoddau yn cynnig cyrsiau Alffa ac yn annog pawb i ymuno ag un o'r cyrsiau hyn. Maent â'r ddawn i greu cymunedau lle mae bawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn rhan o fenter sydd â momentwm ac sydd hefyd ar gynnydd.

Ar wahoddiad yr Esgob a chyda cefnogaeth yr Esgobaeth daw'r Parchedig Ryan Forey a'i dîm o dri gweithiwr cyflogedig i sefydlu Eglwys Adnoddau yma yng Nghaerdydd. Mae'r cyllid i ariannu'r eglwys yn dod yn rhannol o Gronfa Efengylu yr Eglwys yng Nghymru ac yn rhannol o gronfeydd yr Esgobaeth.

Gwasanaeth yn yr Eglwys Adnoddau yn Portsmouth

Y disgwyl yw y bydd yr eglwys yn hunangynhaliol o fewn tair blynedd ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r Esgobaeth trwy ei chyfran blwyf. Disgwylir iddi hefyd fod yn barod i blannu cynulleidfa newydd mewn rhan arall o'r esgobaeth mewn pum mlynedd.

Pan fydd yr Eglwys Adnoddau yn cael ei lansio yng Nghaerdydd ym mis Medi bydd Eglwys St Andreas a St Teilo yn cael ei hail-enwi yn "Citizens Church", a thrwy ei hamryw weithgareddau, digwyddiadau ac addoliad cyfoes bydd yr eglwys yn targedu pobl ifanc o blith yr 80,000 o fyfyrwyr sydd yng Nghaerdydd a'r bobl ifanc proffesiynol sydd yn absennol o eglwysi Anglicanaidd y ddinas. Esboniwyd bod tair ffrwd i genhadaeth yr eglwys, sef:

Ail-efengyleiddio Caerdydd – gwneud Cristnogion newydd mewn cymdeithas sydd wedi anghofio ei Christnogaeth
Adfywio'r Eglwys – plannu eglwysi newydd ar draws y ddinas a'r Esgobaeth fel bo modd
Gweddnewid Cymdeithas – ymuno'n ymarferol i helpu i ymateb i'r heriau cymdeithasol sy'n effeithio pobl Caerdydd

Bydd "Citizens Church" yn cynnig rhywbeth newydd nad yw'r Eglwysi Anglicanaidd presennol yn y ddinas yn ei gynnig ac fe fydd ei chenhadaeth yn canolbwyntio ar ddenu y cenedlaethau sydd ar goll o'n heglwysi ni yn y ddeoniaeth. Nodwyd hefyd fod darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i fod yn rhan o fywyd a chenhadaeth y Citizens Church.

Bydd Eglwys St Andreas a St Teilo yn cau ym mis Rhagfyr eleni er mwyn gwneud gwaith angenrheidiol i drwsio ac addasu'r adeilad cyn ailagor fel y Citizens Church ym mis Medi 2020. Pan ailagorir yr eglwys, bydd cynulleidfa bresennol St Andreas a St Teilo yn parhau i gwrdd am addoliad traddodiadol ar y Sul am 11.00am o dan arweiniad a gofal ei hoffeiriad, y Parchedig Caroline Downs. Bydd y "Citizens Church" yn cynnig gwasanaeth am 9.30am ar gyfer teuluoedd ifanc a gwasanaeth am 6.00pm i fyfyrwyr a phobl ifanc proffesiynol o dan arweiniad y Parchedig Ryan Forey a'i dîm o weithwyr cyflogedig.

Eglwys St Andreas a St Teilo, Woodville Road, cartref y 'Citizens' Church'

Awgrymodd y Parchedig Ryan Forey, ein bod yn ymweld â'r wefan crtrust.org neu *youtube* a chwilio am 'Harbour Church Portsmouth' os hoffem ddysgu mwy am Eglwysi Adnoddau

Llety Eglwysi ar gyfer y di-gartref yn ystod misoedd y Gaeaf (Night Shelter)

Gwnaed apêl am wirfoddolwyr o eglwysi'r ddeoniaeth i helpu Eglwys Garmon Sant sy'n cynnig llety i'r digartref ar nosweithiau Sadwrn (Rhagfyr – Mawrth) o dan y cynllun *Cardiff Night Shelter* yn neuadd yr eglwys yn Adamsdown. Os am ragor o wybodaeth neu os oes diddordeb gennych chi i wirfoddoli cysylltwch yn uniongyrchol â'r Parchedig Phelim O'Hare trwy e-bost: phelimohare@googlemail.com neu ffoniwch 029 2241 1229.

Nadolig y Stori

Nodwyd bod Nadolig y Stori yn Nhabernacl yr Ais yn dathlu ei degfed flwyddyn eleni. Diolchwyd i eglwysi'r deoniaethau am eu cefnogaeth ar draws y degawd diwethaf gan Matthew Dixon, cydlynydd y prosiect, a gobeithir y bydd y gefnogaeth hon yn parhau i'r dyfodol.

Pigion o'r Cyngor Plwyf Eglwysig

Cynhaliwyd cyfarfod o'r CPE nos Lun 25 Tachwedd. Dyma fraslun o'r hyn a drafodwyd ac a benderfynwyd.

Mae'r CPE wedi mabwysiadu polisi **Diogelu Data** ac wedi ymrwymo i weithredu yn unol â deddfwriaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 wrth ymwneud â data personol ein plwyfolion. Mae copi o'n polisi Diogelu Data i'w weld ar yr hysbysfwrdd yn y neuadd a hefyd ar wefan yr eglwys.

Pypedau: Bydd neuadd yr eglwys yn cael ei throi yn theatr pypedau o 9 -20 Rhagfyr ar gyfer cyflwyno Stori'r Geni. Eleni bydd ysgolion yn dod i'r perfformiadau yn y boreau yn ystod yr wythnos 9 – 13 Rhagfyr a bydd perfformiadau yn yr hwyr i'r cyhoedd yn ystod yr ail wythnos, 16 – 20 Rhagfyr.

Eglwys Eco: Yn ein hymgais i weithio tuag at gyrraedd safon Eglwys Eco trefnwyd ymweliad â siop isel-garbon *Iechyd Da* yn yr Eglwys Newydd. Yr ydym hefyd yn codi arian i gefnogi prosiect i efeillio tai bach Eglwys Dewi Sant â thai bach yn rhannau tlotaf y byd (toilettwinning.org). Cynhaliwyd Stondin Cynnyrch Cartref i'r perwyl hwn ar ôl y gwasanaeth 10.30am 1 Rhagfyr ac fe godwyd dros £300. Golyga hyn ein bod wedi mynd dros ein targed i efeillio y pedwar tŷ bach sydd gennym yn EDS.

Blwyddyn y Bererindod 2020: Bydd rhaglen o weithgareddau pererindodol yn cael ei hystyried gan y pwyllgor Cenhadu a Bugeilio ym mis Ionawr.

Niferodd yn Mynychu'r Gwasanaeth 10.30am: Nodwyd gan y Ficer bod y niferoedd yn y gwasanaeth 10.30am yn ystod mis Hydref yn siomedig o isel. Nid oedd un gwasanaeth yn ystod y mis hwnnw wedi denu cynulleidfa dros 25 mewn nifer, a dim ond 20 oedd yn y Foreol Weddi ar Sul olaf y mis. Yn wyneb hyn, a chan ystyried y patrwm o leihad yn y nifer sy'n mynychu pob un o'n gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf, penderfynwyd ei bod yn bryd i ni ystyried o ddifrif pa mor gynaliadwy yw patrwm ein gwasanaethau presennol a beth ddylwn ni wneud fel eglwys i sicrhau bod EDS yn parhau'n gynaliadwy i'r dyfodol.

Toiledau Newydd: Bu'r pensaer yn ymweld â'r eglwys i ddechrau ar y gwaith o baratoi cynlluniau manwl a chostau ar gyfer ein toiledau newydd. Byddwn yn ystyried y camau canlynol ar gyfer y prosiect hwn yn y cyfarfod nesaf.

Diwedd y Flwyddyn Ariannol: Cytunodd y CPE i ofyn i'r Trysorydd anfon llythyr o ddiolch at bawb sydd wedi cyfrannu'n ariannol tuag at gynnal gwaith yr eglwys eleni a hefyd nodyn i atgoffa pawb bod y flwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2019 os ydynt am gyfrannu eleni.

Cytunwyd, yn ôl ein harfer, i gyfrannu i'r elusennau canlynol: CMS £400, USPG £400, Cymdeithas y Beibl £200, y Te Di-gartref yn y Tabernacl £100.

Cynhelir y CPE nesaf 9 Mawrth 2020

Cyfarchion o Tseina

Karl Davies

Y lle cyntaf i mi gyrraedd yn Tsieina fis Mehefin llynedd oedd dinas Guangzhou a dyna ryfedd oedd cyrraedd rhywle a adwaenir fel Canton yn Saesneg a finnau newydd adael Canton ddiwrnod ynghynt! Roeddwn i'n gegrwth o'r funud gyntaf yn y ddinas ryfeddol hon. Doedd dim o'r gwaith ymchwil am Tsieina wedi fy mharatoi ar gyfer yr argraff greodd y ddinas drawiadol hon arnaf. Sylweddolais hefyd fod fy nghanfyddiad o Tsieina yn wahanol iawn i realiti. Mae *skyscapers* anhygoel Guangzhou yn gwneud i'r ddinas deimlo fel Tokyo neu Ddinas Llundain. Doeddwn i ddim wedi disgwyl gweld yr holl gerbydau drudfawr a'r siopau yn llawn o bethau cain a moethus.

Mae'r ddinas hon a'r cyffiniau yn gartref i 22 o filiynau o bobl, yr ardal mwyaf dwys ei phoblogaeth yn y byd. Mor fawr ac mor fodern ac mae technoleg yn rhan annatod o fywyd bob dydd yma. Buan y sylweddolais i hynny wrth wneud dipyn o siopa. Wrth i mi dalu roedd hi'n ymddangos fod problem. Finnau'n craffu ar y bil ac ar yr arian yr oeddwn i wedi ei dalu a methu deall beth oedd y broblem. Trio arian sychion a cherdyn credyd ond dim yn tycio. Fy nghydweithiwr Tsieineaidd yn egluro

bod dynes y siop yn methu a deall pam nad oeddwn i'n talu hefo Weixin, bod arian sychion yn drafferthus ac nad oedden nhw yn derbyn cardiau credyd. Deall wedyn nad oes neb braidd yn defnyddio arian sychion na cherdyn credyd ond beth oedd y Weixin hwn nad oeddwn erioed wedi clywed amdano? Mae pawb yn defnyddio ffôn i dalu am bopeth a'r ap hwylus Weixin (WeChat) yn anfon yr arian yn syth o'ch cyfrif banc i'r gwerthwr.

Ar Weixin hefyd mae archebu tacsi, talu fy rhent a thalu am y dŵr a'r nwy a'r trydan. Ar hwnnw fyddai'n cael neges gan fy rheolwr a fy myfyrwyr ac yn y blaen. Ar hwnnw mae fy mywyd yn dibynnu.

Roedd y ddelwedd oedd gen i o Tsieina yn hen iawn ac o beth allwn i weld ar y dechrau roedd y Tsieina honno wedi hen ddiflannu a wlad hyderus gyfoethog fodern wedi cymryd ei lle. Buan y sylweddolais nad oedd pethau mor syml a hynny. Wrth grwydro'r ardal lle dwi'n byw a throedio'r strydoedd bach rhwng y blociau fflatiau uchel sylweddolais fod yr hen Tsieina yn byw ac yn ffynnu dan yr wyneb.

Mae Tsieina wedi symud o fod y wlad dlawd i fod yr ail economi fwyaf yn y byd mewn ychydig dros hanner can mlynedd. O ganlyniad mae'r modern

wedi goddiweddyd yr hen ond heb ei ddisodli ond yn hytrach ei guddio y tu ôl i len moderniaeth. Mae'r ganolfan siopa fodern lle mae'r coleg lle dwi'n dysgu yn llawn o siopau yn gwerthu'r nwyddau sydd i'w cael mewn siopau drud unrhyw le yn y byd. Dwi'n teimlo wrth gyrraedd y gwaith y gallwn i fod yn Efrog Newydd neu Lundain. Ond, does ond rhaid i mi edrych allan drwy'r ffenest o'r swyddfa a gweld teml hynafol Zumiao yn llythrennol o fewn tafliad carreg.

Yr hen a'r newydd ochr yn ochr a'i gilydd yw un o'r pethau difyrraf am fyw yma. Y ffaith mai myfyrwyr Tsieina yw'r rhai sy'n dangos y parch mwyaf i'w hathrawon yn rhywbeth sy'n ychwanegu at bleser dysgu yma. A phleser arall yw gweld cymaint o gorgis sydd yma gan mai rheiny yw un o'r cŵn fwyaf poblogaidd yn y wlad – pleser yn wir, ond un sy'n gymysg hefyd hefo hiraeth am gartref gwreiddiol y corgi bach wrth ei weld.

Colofn y Ficer

Annwyl gyfeillion,

"Daeth eto ŵyl y geni" ac erbyn i chi ddarllen y llythyr hwn, bydd Nadolig yn wirioneddol ar drothwy'r drws. Mae'r Nadolig yn amser arbennig iawn o'r flwyddyn, ac mae'n cyffwrdd â phob un ohonom yn ei ffordd ei hun. Mae'n adeg pan yr ydym yn dueddol o adael i'r plentyn bach sydd ynom ddod i'r fei, a da hynny! Wedi'r cyfan, gŵyl ar gyfer pawb yw'r Nadolig, gŵyl sy'n dathlu dyfodiad Iesu, Gwaredwr y byd, yn faban bach. Gŵyl sy'n dathlu diniweidrwydd ac urddas plentyndod fel rhan annatod a chysegredig o fywyd.

Yn ddealladwy, yn fwy nag unrhyw adeg arall o'r flwyddyn, mae'r adeg hon yn dueddol o ddwyn llu o atgofion yn ôl i'r cof: atgofion o Nadoligau gynt, atgofion melys ac ambell atgof sy'n peri loes o hyd. Mae'r Nadolig, ac mae'n bwysig i ni gydnabod hyn, yn adeg sy'n dwysáu y teimladau llon a'r lleddf, ac felly y mae llawenydd a thangnefedd yr ŵyl yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl.

Trwy yr amryw ddelweddau a welwn trwy hysbysiadau Nadoligaidd y teledu neu drwy ddarllen erthyglau cylchgronau wrth i'r Nadolig nesáu, yn fynych, fe gawn ein cyflyru i feddwl am Nadolig llawen fel llond tŷ o bobl, pentwr enfawr o anrhegion o dan y goeden, eira tu allan a thân agored tu mewn yn cynhesu'r tŷ, a bwrdd wedi'i arlwyo â digon o fwyd i borthi'r pum mil. Fe wyddom mai delweddau yn unig yw'r rhain, ond mae'n syndod cymaint mae'r fath ddelweddau yn dylanwadu ar y ffordd y meddyliwn ninnau am yr hyn sy'n gwneud y Nadolig yn llawen. Delweddau sy'n troi'n ddisgwyliadau sy'n anodd i'w gwireddu; delweddau sy'n cynnig llawenydd byrhoedlog ac sy'n gadael i ni deimlo ychydig yn siomedig ac yn gofyn y cwestiwn, ai dyma ystyr y Nadolig?

Ond i ddarganfod gwir ystyr y Nadolig, ei lawenydd a'i dangnefedd, mae'n rhaid i ni fynd yn ôl i'r stabl ddiaddurn, ddi-urddas honno ym Methlehem. Mynd yn ôl i'r lle mwyaf annisgwyl, ac i ddweud y gwir, y lle mwyaf anaddas. Yno, yn y stabl lom, yn gorwedd ym mhreseb yr anifail fe welwn ffynhonnell llawenydd a thangnefedd yr ŵyl. Yno, yn symlrwydd y darlun, yng ngeiriau cyfarwydd y stori a'r carolau, fe ddown ni o hyd i'r baban bach, yr hwn a aned er ein mwyn ni. Iesu, yr hwn a ddaeth i ganol cymhlethdodau bywyd y ddynoliaeth i ddangos i ni fod gofal Duw a'i gariad yn cynnwys ac yn cwmpasu ein bywydau beunyddiol ninnau hefyd.

Ac felly, trwy ddechrau wrth y preseb, a thrwy syllu ar y baban Iesu a gweld ynddo rodd amhrisiadwy Duw i ni, fe welwn nad gŵyl flynyddol y Nadolig sy'n rhoi'r llawenydd a'r tangnefedd i ni. Yn hytrach, nyni, oherwydd ein ffydd a'n hymddiried yn Iesu, yr un a aned yn Waredwr, sy'n dod â'n llawenydd a'n tangnefedd i'r ŵyl, a hynny ym mha bynnag modd y dymunwn ei chadw. Mae'r llawenydd a'r tangnefedd ynom ni yn barod, yn teithio gyda ni i ba le bynnag yr awn: llawenydd a thangnefedd ni all arian byth mo'i brynu. Dyma'r llawenydd a'r tangnefedd sy'n dod wrth i ni ddwyn i gof ein bod wedi'n clymu yn rhwymau cadarn cariad di-ollwng – cariad Duw a welwn yn gorwedd yn y preseb.

Nadolig llawen a thangnefeddus a blwyddyn newydd dda i chi gyd,

Dyfrig.

Organfest 2019 6-8 Medi: Y Datganiad Agoriadol gan Gerard Brooks

Nos Wener 6 Medi cawsom y fraint o groesawu *Organfest* 19 i Gaerdydd, gŵyl a drefnwyd ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Organyddion y *British Institute of Organ Studies (BIOS)* a'r *Incorporated Association of Organists (IAO)* Cynhelir yr ŵyl hon mewn gwahanol ddinasoedd yn ystod penwythnos cyntaf Medi bob dwy flynedd ers ei dechreuad yn 2014.

Bu gŵyl debyg i hon yng Nghaerdydd rai blynyddoedd yn ôl ond ni chafwyd perfformiad yn EDS bryd hynny. Pleser o'r mwyaf, felly, oedd dod i wrando ar ddatganiad organ mor bwysig yn ein heglwys. Cynhaliwyd y digwyddiadau eraill yn Neuadd Dewi Sant gyda rhaglen fore Sadwrn ar gyfer plant a phobl ifanc, datganiad yn Eglwys Sant Ioan Canol y Ddinas yn y pnawn, a chyngerdd arbennig gan David Briggs yng Nghadeirlan Llandaf gyda'r hwyr. Cafodd hwn ei recordio ar gyfer Radio 3. I gloi'r penwythnos, cafwyd darlith ac arddangosiad o'r organ Snetzler 1775 a arferai fod ym meddiant teulu Williams-Wynne, Wynnstay, Rhiwabon ond sydd erbyn hyn yn yr Amgueddfa Genedlaethol.

Gerard Brooks, Llywydd Coleg Brenhinol yr Organyddion oedd y datgeinydd yn y cyngerdd agoriadol yn EDS ac ef hefyd chwaraeodd yr organ Willis sydd yn Eglwys Sant Ioan. Dyma organydd medrus iawn sydd wedi derbyn canmoliaeth frwd yng ngwledydd Prydain a thu hwnt. Er iddo berfformio mewn canolfannau eraill yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd dyma'r tro cyntaf i mi ei glywed yn perfformio ar gampwaith Henry Willis ('Y Tad') yn EDS. Wrth gyflwyno'r darnau siaradodd am brydferthwch yr organ er ei bod yn cynnig sawl her i'r datgeinydd. Cafodd ei hadeiladu cyn bod sôn am y cymhorthion sydd ar gymaint o organau erbyn heddiw. Fe wyddom eisoes fod gennym offeryn unigryw a'i bod yn cael ei chyfrif yn un o gampweithiau Henry Willis I (1821-1901).

Marian Fairclough

Cafwyd derbyniad da a chymeradwyaeth wresog i'r datganiad hwn gan gynulleidfa o arbenigwyr ac aelodau brwdfrydig o gymdeithasau organyddion ledled Prydain. Cawsom raglen gyffrous wedi'i chynllunio'n grefftus yn ôl y disgwyl ac yn cynnwys gweithiau gan JS Bach, Mendelssohn, Bossi, Elgar, Stanford, Franck, Achille Philip (cyfansoddwr a oedd yn anghyfarwydd i mi) a Vierne, gyda'r *Carrillon de Westminster* enwog. Roedd 'bravo' i'w glywed o dro i dro, yn arbennig o ochr ogleddol yr eglwys os cofiaf yn iawn.

Derbyniwyd neges rai dyddiau'n ddiweddarach yn nodi canmoliaeth a chymeradwyaeth Alan Thurlow, Cadeirydd BIOS (British Institute of Organ Studies) a chyn-Organydd a Chôr-feistr Cadeirlan Chichester. Meddai'. *I thought that the recital by Gerard Brooks was outstanding, and the sound of the organ thrilling The tutti was so satisfying, though not a mutation or mixture in sight on the specification!*

Clod yn wir.

Yn ychwanegol at hyn, argymhellodd Alan Thurlow y dylem fel eglwys wneud cais am dystysgrif organ hanesyddol gan BIOS. Golygai hyn y byddai organ EDS ar y rhestr o organau hanesyddol sydd ar gael i bawb sy'n ymddiddori yn y maes hwn. Cyflwynwyd cais yn ddiweddar am y tystysgrif hwn ac fe ddisgwyliwn yn eiddgar am newyddion da yn 2020.

Gwahoddir deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Mawrth 27ain 2020

Cysylltwch â'r Golygydd - wyn@wynmears.com

Pobl y Plwyf

Llongyfarchiadau i Ieuan ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Cerdd newydd Côr Meibion Pendyrus

dim ond ei chweched penodiad mewn 96 mlynedd!

Bydd Ieuan yn cychwyn ar ei waith ym mis Ionawr 2020 gyda'r 90+ o aelodau yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr ystod cynhyrfus a newydd o gerddoriaeth a ddaw yn sgil ei benodiad. Yn ogystal â'i waith yn ein mysg ni yma yn EDS mae Ieuan hefyd yn Gyfarwyddwr Cerdd Côr Meibion Parc yr Arfau Caerdydd ac yn gyfeilydd prysur dros nifer o unawdwyr a chorau gan gynnwys Côr Heol-y- March, a Chôr Orffiws Treforus. Mae e hefyd yn Gyfarwyddwr Cerdd Côr Meibion Llewod Prydain a'r Iwerddon – bu'n teithio gyda'r Côr i Seland Newydd yn 2017, ac mae'n edrych ymlaen at y daith nesaf i Dde Affrica yn 2021.

Gyda llaw bydd Ieuan yn priodi Megan yn Dewi Sant ar Ionawr 18fed 2020! Blwyddyn gyffrous o flaen y ddau!

Ymweliad Cymdeithas Nos lau â siop Iechyd Da (siop eco-gyfeillgar), yr Eglwys Newydd, Cafwyd cyflwyniad ar egwyddorion y siop a chyfle i brynu nwyddau.

Ymweliad Siôn Corn â pharti Nadolig yr Ysgol Sul

Arglwydd dysg i'n weddïo ar droad y flwyddyn

Gweddi ar gyfer diwedd y flwyddyn.

O Dduw ein Tad nefol,
â'r flwyddyn yn gyflym yn dirwyn i ben
diolchwn iti am dy holl fendithion i ni:
cyflwynwn iti y siomedigaethau a ddaeth i'n rhan
ac erfyniwn am dy faddeuant am y methiannau
a'r pechodau hynny sydd yn pwyso arnom.
Cynorthwya ni, wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu,
a'r profiadau oll a ddaeth i'n rhan, i'w defnyddio nhw
i lywio'n ddoeth ein hyfory yn nerth dy gariad di-ollwng,
trwy Iesu Crist ein Harglwydd. Amen.

Gweddi ar gyfer dechrau Blwyddyn Newydd.

O Dduw, ein Tad nefol,
ar ddechrau'r flwyddyn newydd hon,
gweddïwn am d'oleuni a'th nerth
i ddyfalbarhau ac i dyfu yn ein ffydd,
i droi tudalen newydd a cherdded
yn hyderus yn dy gwmni di.
Wrth inni deithio i'r yfory,
cryfha ein ffydd, cysegra'n dyhead a
chynnal ni yn wyneb pob hawddfyd ac adfyd,
yn nerth dy lân Ysbryd ac yn enw Iesu Grist
yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth. Amen

Dyddiadur yr Eglwys

Rhagfyr

Gwasanaethau'r Nadolig

Noswyl Nadolig
11.00pm - Cymun Cyntaf y Nadolig a Charolau

Dydd Nadolig
9.30am – Y Cymun Bendigaid gyda Charolau

Dydd Sul 29 Rhagfyr – Nadolig I
8.00am – Y Cymun Bendigaid
10.30am – Y Foreol Weddi a Phregeth
6.00pm – Y Cymun Bendigaid gyda Charolau

Ionawr

Dydd Calon – Gŵyl Enwi Iesu
10.30am – Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 6 Ionawr
8.00am – Y Cymun Bendigaid
10.30am – Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
6.00pm – Gwasanaeth Cristingl

Dydd Sadwrn 11 Ionawr
10.30am – 3.30pm – Côr Siambr Cantemus
Dewch a chenwch – "Y Greadigaeth gan Haydn

Dydd Sul 12 Ionawr
3.30pm – Gwasanaeth i nodi dechrau
Blwyddyn y Bererindod yn Nghadeirlan Llandaf

Nos Fercher 22 Ionawr
7.30pm - Gwasanaeth Cytûn Dinas Caerdydd a'r Bae
i nodi'r wythnos Weddi dros Undod Cristnogol

Nos Lun 27 Ionawr
7.30pm – Is-bwyllgor Cenhadu a Bugeilio

Nos Iau 30 Ionawr
7.30pm – Cymdeithas yr Eglwys: Gwinoedd cartref o seler y Ficerdy

Chwefror

Dydd Sul 2 Chwefror – Cyflwyniad Crist
8.00am – Y Cymun Bendigaid
10.30am – Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
6.00pm – Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

Nos Lun 24 Chwefror
7.30pm – Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo

Dydd Mercher y Lludw – 26 Chwefror
10.30am – Y Cymun Bendigaid gydag arnodiad Lludw
7.30pm – Y Cymun Bendigaid gydag arnodiad Lludw

Nos Iau 27 Chwefror
7.30pm - Cymdeithas yr Eglwys: digwyddiad i'w gadarnhau

Mawrth

Dydd Sul 1 Mawrth – Gŵyl Ddewi
8.00am – Y Cymun Bendigaid
10.30am – Y Cymun Bendigaid ar gân
Ysgol Sul a Chinio yn neuadd yr Eglwys
6.00pm – Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

Nos Iau 5 Mawrth
7.00pm – Gwasanaeth Cenedlaethol o dan nawdd Cytûn i ddathlu 400mlwyddiant cyhoeddi Beibl Parry yng Nghapel Tabernacl yr Ais

Nos Lun 9 Mawrth
7.30pm – Cyngor Plwyfol Eglwysig